Red Meat Development Programme

# Target footrot to improve gains

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

**Footrot in sheep can cost £5-10 per ewe when accounting for medicines, labour and loss of production due to lower body condition, poorer mothering ability and slower growth in lambs. Active measures to deal with footrot will reduce its incidence and will reduce costs and improve performance.**



## Grazing conditions

1 Inspect the whole flock and every foot (use a tip over crate to make life easier).
2 Diagnose any lameness - if footrot treat with suitable long acting antibiotic.
3 Draft out any infected animals to a separate pen.
4 Put all unaffected sheep through a formalin or zinc sulphate foot bath (use a clean water bath before the treatment bath to ensure that the chemical comes into contact with the hoof).
5 Allow these sheep to stand on clean concrete for as long as possible.
6 Put these sheep onto pasture that has not had sheep on it for at least 14 days. Continue to monitor for signs of lameness. Pull out any lame animals, treat and put with the infected flock).
7 Now footbath the infected sheep with a suitable chemical. Keeping these animals until last will reduce any cross infection.
8 Keep this group separate from the main flock.
9 Re examine this group in 2-3 weeks time. Return any healthy sheep to the main flock. Mark sheep that are still infected and repeat the treatment.
10 Repeat this process in 2-3 weeks - any animals which are still infected should be culled.

***If it is not possible to inspect or examine the whole flock then constantly remove, treat and isolate lame animals.***

## Save yourself time and money

After lameness had featured in a HCC Discussion Group meeting, Iwan Price-Davies, Llandovery worked with his veterinary advisor to monitor his flock.

**Year 1** Of 638 ewes examined, 112 ie. 17.5% were actually infected and treated. 19 repeat offenders were culled. Replacement ewes were vaccinated with Footvax®

**Year 2** Of 635 ewes examined, only 27 ie. 4.25% were infected and treated. There were no repeat offenders

| Ongoing Savings for a 600 ewe flock | |
|---|---|
| 1 x Lincospectin plus 3 x oxytetracycline | £114.00 |
| Replacement costs 19 ewes @ £40 (value of ewe lambs kept on instead of sold) | £760.00 |
| 1 trip to tack sheep and 1 day of gathering and treatment (80 miles (@ 40p/m + 5 hours @ £11.80/hr) | £91.00 |
| 3 sessions sorting and treating lame sheep (total 12 hours@ £11.80) | £141.60 |
| Minus Cost of Footvax® for replacements (230 ewes @ £1) | £230.00 |
| **Total saving /year** | **£876.60** |

**Aled Jones near Llangollen used the same approach on his 900 ewe flock and reduced the number of infected ewes by 11%, worth on average a saving of over £800/yr. This covered the cost of vaccination of the whole flock in the first year and will help save money in subsequent years as only replacements will need to be vaccinated.**

***The Red Meat DevelopmentProgramme is managed by Hybu Cig Cymru on behalf of Farming Connect***

HYBU CIG CYMRU

*November 2008*

Rhaglen Datblygu Cig Coch

# Targedu braenedd y traed er mwyn cael gwell enillion

**Gall braenedd y traed mewn defaid gostio £5-10 y famog fel canlyniad i brynu meddyginiaethau, llafur a cholli cynnyrch am nad yw cyflwr y corff a'r rhinweddau mamol gystal ac am fod yr wŷn yn tyfu'n arafach. Bydd cymryd camau gweithredol i ddelio â braenedd y traed yn golygu y bydd yn digwydd yn llai aml, bydd yna lai o gostau a bydd perfformiad yr anifeiliaid yn gwella.**



## Targedu braenedd y traed yn eich diadell

1. Archwiliwch y ddiadell gyfan a phob troed (defnyddiwch gawell ddymchwel i hwyluso'r gwaith).
2. Gwnewch ddiagnosis o unrhyw gloffni – os yw braenedd y traed yn bresennol, defnyddiwch wrthfiotig hirweithredol.
3. Rhowch unrhyw anifeiliaid heintiedig mewn lloc ar wahân.
4. Cerddwch yr holl ddefaid nad ydynt yn dioddef drwy faddon troed â fformalin neu sylffad sinc (defnyddiwch faddon yn cynnwys dŵr glân cyn y baddon triniaeth fel bod y cemegyn yn dod i gysylltiad â'r carnau).
5. Gadewch i'r defaid hyn sefyll ar goncrid glân gyhyd ag y bo modd.
6. Rhowch y defaid hyn ar borfa a fu heb ddefaid am o leiaf 14 diwrnod. Daliwch i chwilio am arwyddion o gloffni. Tynnwch allan unrhyw anifeiliaid cloff, rhowch driniaeth iddynt a'u rhoi gyda'r ddiadell heintiedig).
7. Nawr cerddwch y defaid heintiedig drwy faddon traed â chemegyn addas. Bydd cadw'r anifeiliaid hyn tan y diwedd yn golygu llai o berygl o groes-heintiad.
8. Cadwch y grŵp hwn ar wahân i'r brif ddiadell.
9. Archwiliwch y grŵp hwn eto ymhen pythefnos i dair wythnos. Dychwelwch unrhyw ddefaid iach i'r brif ddiadell. Marciwch ddefaid sy'n heintiedig o hyd a rhowch y driniaeth iddynt unwaith eto.
10. Rhowch y driniaeth hon eto ymhen 2-3 wythnos – dylai unrhyw anifeiliaid sy'n heintiedig o hyd gael eu difa.

***Os nad oes modd archwilio'r ddiadell gyfan, rhannwch yr anifeiliaid cloff yn rheolaidd, rhowch driniaeth iddynt a'u cadw ar wahân.***

## Arbedwch amser ac arian i'ch hunan

Ar ôl i gyfarfod Grŵp Trafod HCC roi sylw i gloffni, bu Iwan Price-Davies, Llanymddyfri, yn gweithio ar y cyd a'i ymgynghorydd milfeddygol i fonitro'i ddiadell.

**Bl 1** O blith 638 o famogiaid a archwiliwyd, roedd 112 h.y. 17.5% yn heintiedig a chawsant driniaeth. Cafodd 19 o ddefaid a oedd yn fynych gloff eu difa. Brechwyd mamogiaid amnewid â Footvax®

**Bl 2** O blith 635 o famogiaid a archwiliwyd, roedd 27 h.y. 4.25% yn heintiedig a chawsant driniaeth. Nid oedd unrhyw ddefaid yn gloff ar ôl eu trin.

| Arbedion parhaus ar gyfer diadell yn cynnwys 600 o famogiaid | |
|---|---|
| 1 x Lincospectin ynghyd â 3 x Ocsitetrasyclin | £114.00 |
| Costau amnewid 19 mamog @ £40 (gwerth ŵyn benyw a gadwyd yn hytrach na'u gwerthu) | £760.00 |
| 1 daith i'r defaid tac ac 1 diwrnod o hel a thrin (80 milltir (@ 40c/m + 5 awr @ £11.80 yr awr) | £91.00 |
| 3 sesiwn yn didol a thrin defaid cloff (cyfanswm 12 awr @ £11.80) | £141.60 |
| Llai Cost Footvax® i'r anifeiliaid amnewid (230 mamog @ £1) | £230.00 |
| **Cyfanswm yr arbediad blynyddol** | **£876.60** |

**Cymerodd Aled Jones, sy'n ffermio ger Llangollen, gamau tebyg gyda'i ddiadell o 900 o famogiaid a chafwyd gostyngiad o 11% yn nifer y mamogiaid heintiedig, sef arbediad cyfartalog o dros £800 y flwyddyn. Roedd hyn yn ddigon i dalu am frechu'r ddiadell gyfan yn ystod y flwyddyn gyntaf a bydd yn gymorth i arbed arian mewn blynyddoedd i ddod am mai dim ond anifeiliaid amnewid fydd raid eu brechu.**

***Rheolir y Rhaglen Datblygu Cig Coch gan Hybu Cig Cymru ar ran Cyswllt Ffermio***